

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 11eg o FAI 2015 YN NEUADD PONTIETS AM 7.30.YN DILYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams, Alan Lewis, Ellis Jenkins, Geoff Hewitt, Heddwyn Jones, Aled Williams, Richard Thomas, Meic Bowen a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees a Wendy Evans

Materion Personol

1155 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd croeso arbennig i Ellis Jenkins ar ôl ei dostrwydd.

1156 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 13/04/2015 fel rhai cywir.

1157 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1126 - Safle Gorsaf Pontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r cais am grant o'r Loteri Fawr a hefyd o Gronfa Eglwysi Cymru. Gobeithir clywed o fewn yr wythnosau nesaf os ydym yn llwyddiannus.

Tud. 2 Cofnod Rhif 1126 - Mynydd Crwbin. Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r sefyllfa bresennol ac arhoswn am adroddiad pellach o'r Cyngor Sir.

Tud. 2 Cofnod Rhif 1145 - Ymddiswyddiad Cyngorwr. Mae'r ymddiswyddiad wedi ei chofrestru gan y Cyngor Sir a bydd yr hysbyseb yn ymddangos mewn ychydig ddyddiau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cyngorwyr Ian Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1158 Clwb Pêl-droed Carwe -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1159 Grŵp Cyngorau Cymuned Cwm Gwendraeth - Penderfynwyd ail-ymuno a'r Grŵp gyda'r Cyngorwyr Geraint Rosser ac Alan Lewis yn ein cynrychioli.

1160 Cyngor Sir Gar – Hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad - Nodwyd y Llythyr.

1161 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Cyfarfodydd Cyhoeddus – Sgwrs Iach – Nodwyd y Llythyr.

1162 Cyngor Sir Gar - Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth - Cais am Wybodaeth. - Awdurdodwyd y Clerc i ateb ar ein rhan.

Ceisiadau Cynllunio

1163 Cadarnhau Ceisiadau Cynllunio

- Mr & Mrs E Jones - Fferm Cwm Eynon, Pedair Heol - Adeilad Amaethyddol - Nodwyd bod Cyfarfod Safle ar 14/05/15. Ynglŷn â'r mater hwn.

Ceisiadau Cynllunio:

- Mr Gary Davies – Penyffin,Pontiets – Byngalo - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Stephen Vestuti – Tir nes at Lamneth,Heol Trimsaran,Carwe - Byngalo a Garej - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Wyn Davies – 18,The Ashes, Meinciau – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1164 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Ebrill.

Adroddiad Ariannol Misol

1165 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a)** Cyflog y Clerc - £350.44 (Mis Ebrill)
- b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ebrill)
- c)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr – £89.19 (Mis Ebrill)
- ch)** HMRC (Treth)- £75.00 (Mis Ebrill)
- d)** Stampiau - £28.08
- dd)** Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
- e)** Ffon y Syrfëwr - £30.00
- f)** Roger Thomas(Archwiliwr Mewnol) - £150.00
- ff)** D.T.H.Walters – Gwaith ym Marc Carwe - £840.00
- g)** M & M Greene – Gwaith ym Marc Carwe - £350.00
- ng)** Ricky Guest – Gwaith ym Marc Carwe - £275.00
- h)** SL Plant Hire – Gwaith ym Marc Carwe - £792.00

Nodwyd hefyd ein bod wedi derbyn yr arian canlynol:-

- a)** Cyfraniad cyntaf o'r Presept - £15675.00
- b)** Ad-daliad o'r TAW (Treth ar Werth) - £2829.79
Awdurdodwyd y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael ad-daliad TAW ar wariant Cronfa Ffoslas,

1166 Archwiliad Ariannol Blynnyddol

Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod Mr Roger Thomas, ein Harchwilydd Mewnol wedi cwblhau ei archwiliad o Gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2014/2015. Darllenwyd llythyr wrtho yn cadarnhau bod y Cyfrifon yn gywir a diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn y mater hwn.

1167 Asesiad Risg Cyllidol

Wedi trafodaeth lwyr a chllir,cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Tyssul Evans ein bod yn derbyn Asesiad Risg Cyllidol am y flwyddyn 2015/2016.

1168 Rheolau Ariannol

Wedi trafodaeth lwyr a chllir,cynigwyd gan Geoff Hewitt ac eiliwyd gan Ellis Jenkins ein bod yn derbyn Rheolau Ariannol am y flwyddyn 2015/2016.

Materion Cynghorwyr

1169 Alan

- Gofyn i Gyngor Sir Gar codi'r Bagiau Du sydd ar yr hewl rhwng Meinciau a Phontantwn.

1170 Richard

- Gofyn i Gyngor Sir Gar am Bin Sbwriel newydd yn yr encilfa ger Pontantwn.
- Adnewyddu'r Cafnau ar y Gysgodfa Bys ym Mhontantwn.

1171 Geoff

- Tacsis yn parcio ar y palmant yn Heol y Meinciau ac wrth Barc y Meinciau. Penderfynwyd cysylltu â'r Heddlu ynglŷn â'r materion hyn.

Cyfarfod nesaf:- 1af o Fehefin 2015 yn 'Stafell y Band, Crwbin am 7.00 o'r gloch.

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....